SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

GanBwyll GoSafe

CADW FFYRDD CYMRU'N FWY DIOGEL
KEEPING WELSH ROADS SAFER




# **Gan Bwyll:** Rhoi trefn ar y ffeithiau...

Mae goryrru yn fater hynod o ddadleuol sy'n effeithio ar gannoedd ar filoedd ohonom bob blwyddyn. Fe ofynnir cwestiynau yn aml i fy Swyddfa am bolisi goryrru Heddlu Gogledd Cymru.

Os ydych yn goryrru ac yn cael eich dal gan gamera diogelwch, yna gall Heddlu Gogledd Cymru wneud unrhyw un o'r canlynol:

- cynnig cyfle i chi fynychu cwrs ymwybyddiaeth cyflymder, y bydd rhaid i chi dalu amdano (tydy'r cynnig yma ddim ond yn cael ei wneud os ydych yn goryrru o fewn trothwy penodol);
- anfon Hysbysiad Cosb Penodol (tocyn goryrru) atoch, gyda dirwy o £100 a thri phwynt cosb ar eich trwydded;
- eich erlyn am oryrru. Golyga hyn y bydd rhaid i chi fynd i'r llys, ac fe allwch gael dirwy o hyd at £1,000 (£2,500 os oeddech yn goryrru ar y draffordd), rhwng tri a chwe phwynt cosb ar eich trwydded yrru, ac mae'n bosib y byddwch yn cael eich diarddel rhag gyrru.





## BETH YDI GAN BWYLL?

Mae'r bartneriaeth yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith drwy ddefnyddio camerâu goryrru (gan gynnwys faniau Gan Bwyll).

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn aelod o Bartneriaeth Gan Bwyll. Nôd strategol Gan Bwyll ydi sicrhau fod unigolion yn ddiogel ar ffyrdd Cymru drwy leihau anafusion ac achub bywydau.

**Myth:** Ffordd hawdd o wneud arian i'r heddlu yw camerâu goryrru.

**Ffaith:** Mae camerâu goryrru yno i achub bywydau a gwneud ein ffyrdd yn ddiogelach, ddim er mwyn gwneud arian.

## SUT MAE GAN BWYLL YN PENDERFYNU LLE I ROI'R FANIAU?

- Mae'r camerâu yno i annog modurwyr i yrru o fewn y cyfyngiad cyflymder a felly'r camerâu mwyaf llwyddiannus yw'r rhai hynny sy'n cofnodi'r nifer LLEIAF o droseddau nid y nifer fwyaf.
- Mae pob camera yn yr ardal yn cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru ar le y gall camerâu gael eu rhoi. Mae sut a phryd bydd camerâu yn cael eu defnyddio yn dibynnu ar hanes, a'r broblem sy'n bodoli gyda diogelwch, ym mhob lleoliad.
- Rwy'n cadw golwg rheolaidd ar sut mae Partneriaeth Gan Bwyll yn gweithredu yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau mai dim ond mewn ardaloedd lle mae yna hanes o anafusion a/neu lefel profedig o oryrru y mae camerâu yn cael eu lleoli.
- Os bydd angen, gall Gan Bwyll weithredu ger gwaith ffordd, ysgolion ac ardaloedd sy'n peri pryder i'r gymuned.

## MAE GENNYF BRYDERON AM ORYRRU YN FY ARDAL, SUT ALL GAN BWYLL FY HELPU I A FY NGHYMUNED?

Os oes gennych bryderon am oryrru yn eich cymuned yna anfonwch eich pryderon gydag unrhyw fanylion perthnasol megis y cyfyngiad cyflymder, enw'r ffordd a nodweddion penodol (ysgol, ffordd gul, croesfannau pelican) at eich Swyddog Ffyrdd Diogelach, a ellir ei gysylltu ar 101.

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

## PWY SY'N GOSOD Y CYFYNGIAD CYFLYMDER?

Mae cyfyngiadau cyflymder yn cael eu gosod gan yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gyfrifol am y rhan honno o'r ffordd. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cymryd i ystyriaeth natur y ffordd a nifer o ffactorau eraill.

## I BLE MAE FY ARIAN YN MYND?

Mae pob dirwy yn mynd yn syth i'r Trysorlys.

Fodd bynnag, mae cyfran o'r arian a dalwyd i fynychu cwrs ymwybyddiaeth cyflymder yn mynd i ddarparwr y cwrs a mae'r gweddill yn mynd i Bartneriaeth Gan Bwyll. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cael ei hariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

*Arfon Jones*
*Comisiynydd Heddlu a*
*Throsedd Gogledd Cymru*

74885.

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**GanBwyll GoSafe**

CADW FFYRDD CYMRU'N FWY DIOGEL
KEEPING WELSH ROADS SAFER





# **Go Safe:** Setting the story straight...

Speeding is a hugely contentious issue that affects hundreds of thousands of us every year. My office is frequently asked questions about North Wales Police's policy regarding speeding motorists.

If you exceed the speed limit and are caught doing so by a safety camera, North Wales Police could do any of the following:

- offer you the chance to attend a speed-awareness course, which you'll have to pay for (this only applies if speeding within the threshold);
- issue a Fixed Penalty Notice (a speeding ticket), with a fine of £100 and three penalty points;
- prosecute you for speeding. This will mean you will have to go to court, and could face a fine of up to £1,000 (£2,500 if you were speeding on the motorway), between three and six penalty points on your driving licence, and a possible driving disqualification.





## WHAT IS GO SAFE?

The Partnership which is responsible for speed camera enforcement (and which includes the Go Safe vans).

North Wales Police is a member of the Go Safe Partnership.

The strategic aim of Go Safe is to make people safer on Welsh roads by reducing casualties and saving lives.

**Myth:** Safety cameras are just an easy way of making money for the police.

**Fact:** Safety cameras are there to save lives and make the roads safer, not to make money.

## HOW DOES GO SAFE DECIDE WHERE TO PLACE CAMERA VANS?

- Cameras are there to encourage motorists to drive within the speed limit so the most successful cameras are those which record the LEAST number of offences not the most.
- Every camera in the area complies with the Welsh Government guidance on where cameras can be placed. How and when cameras are deployed depends on the history and road safety problem at each location.
- I frequently scrutinise how the Go Safe Partnership operates in North Wales in order to ensure that speed cameras are only located in areas with a casualty history and/or proven levels of speeding.
- If required Go Safe can operate at road works, schools and areas of community concern.

## I HAVE CONCERNS ABOUT SPEEDING IN MY AREA, HOW CAN GO SAFE HELP ME AND MY COMMUNITY?

If you have concerns about speeding in your community please forward your concerns with any relevant details such as speed limit, road name and characteristics (school, narrow road, pelican crossings) to your Safer Roads Officer who can be contacted on 101.

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

## WHO SETS THE SPEED LIMIT?

Speed limits are set by the Highway Authority responsible for the section of the road. The Highways Authority will take into account the nature of the road and many other factors.

## WHAT HAPPENS TO MY MONEY?

All fines are passed to the Treasury.

However, a proportion of the money paid to attend a speed awareness course goes to the course provider and the remainder goes to the Go Safe Partnership. The Partnership is also funded by means of a grant from the Welsh Government.

*Arfon Jones*
*Police & Crime Connissioner*
*for North Wales Police*

74885